

DOSBARTHIAU DYSGU CYMRAEG YNG NGHANOLFAN Y CYMRY AC EGLWYS BETHEL

Liverpool Welsh Language Group

If you're curious enough about Welsh to look at Yr Angor, but don't speak the language yet, then our group might be of interest to you. You're welcome to join us and we'll help you to learn Welsh. Write to bethel.learners@btinternet.com for details of what we do. On the other hand, if you do speak Welsh or you have a dictionary and a lot of patience, then you can read about our activities for learners in the following paragraphs.

Bron bob nos Lun trwy'r flwyddyn mae grŵp o ddysgwyr yn cwrdd yn Lerpwl, ym Methel fel arfer, ond weithiau (ar wyliau'r banc a dros wyliau'r haf) yn y dafarn gerllaw. Mae tuag ugain ohonom ni, ac efallai bydd deg neu dipyn mwy yn dod i'r cyfarfod ar yr un pryd. Mae mwyafrif yr aelodau yn byw yn Ne Lerpwl, ond mae un neu ddau ohonom ni yn dod o bellach i ffwrdd, hyd yn oed mor bell â Newton le Willows.

Grŵp cefnogi ydyn ni, nid dosbarth confensiynol gyda thiwtor. Mae pawb yn helpu'i gilydd nos Lun, wedyn dyn ni'n astudio gartref fel unigolion trwy'r wythnos. Dyn ni'n lwcus gael help gan rai o'r Cymry Cymraeg, hefyd.

Ym Methel dyn ni'n cwrdd mewn dwy ystafell, y naill ar gyfer dechreuwyr, y llall ar gyfer dysgwyr profiadol. Ar ôl awr awn ni i gyd i'r gegin am banded. Yn y dafarn dyn



ni'n cwrdd o gwmpas bwrdd gyda baner (fach!) Cymru, Y Ddraig Goch.

Mae'r is-grwpiau yn gwneud gweithgareddau amrywiol: gwersi anffurfiol, sesiynau sgwrsio, darllen yn uchel a chyfieithu, gemau gyda geiriau, ac ymarferion. Mae'n dibynnu ar bwy sy'n arwain, ac mae'n amrywio o wythnos i wythnos.

Weithiau dyn ni'n ymuno yng nghyfarfodydd Cymdeithas Lenyddol Bethel ar nos Lun yn lle ein dosbarthiadau

ein hunan. Unwaith yn y flwyddyn mae'r gymdeithas yn dangos ffilm Gymraeg, ac maen nhw'n defnyddio copi gydag isdeitlau er mwyn ein helpu ni. Unwaith yn y flwyddyn ers 2016 dyn ni wedi trefnu noson o adloniant iddyn nhw, "Noson y Dysgwyr", gyda phawb yn ein grŵp yn cymryd rhan. Mae pobl yn adrodd barddoniaeth, darllen, canu, ymddangos mewn drama fach, ac yn y blaen.

Yn ogystal â'n cyfarfodydd wythnosol dyn ni'n cynnig cyfleoedd i astudio trwy gyrsiau undydd, gyda thiwtoriaid proffesiynol, yng Nghanolfan Iaith Clwyd yn Ninbych. Maen nhw'n digwydd efallai chwe gwaith yn y flwyddyn. Dydy'r cyrsiau 'ma ddim yn ddrud, a dyn ni'n rhannu cludiant hefyd er mwyn cadw'r gost yn isel.

Yn olaf, dyn ni'n cymdeithasu: gyda'n gilydd dros banded a bisgedi rhad, ar ôl ein cyfarfodydd cyffredin, neu gyda Chymry Lerpwl dros banded a bisgedi posh, os oes digwyddiad yn y ganolfan.

Dyna ni, dysgwyr Lerpwl. Dyn ni'n gobeithio bod safon ein Cymraeg wedi gwella oherwydd ein gweithgareddau yn y dosbarth ac yr holl help oddi wrth bobl gefnogol Bethel. Dewch draw unrhyw nos Lun, siaradwch â ni, a ffurfiwch eich barn eich hunain!

Mike Farnworth.

*Diolch i Dr. Pat Williams am ei help
gyda gramadeg.*